# Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

# SoNaRR2020 cofrestru coetiroedd pwysau a chyfleoedd allweddol

Cyfoeth Naturiol Cymru

Adroddiad Terfynol

# Gwybodaeth am Cyfoeth Naturiol Cymru

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

# Tystiolaeth yn Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein strategaethau, penderfyniadau, gweithrediadau a chyngor i Lywodraeth Cymru ac eraill wedi'u tanategu gan dystiolaeth gadarn sydd o ansawdd uchel. Rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol bwysig meddu ar ddealltwriaeth dda o'n hamgylchedd newidiol.

Byddwn yn gwireddu'r weledigaeth hon drwy'r isod:

- Cynnal a datblygu sgiliau arbenigol technegol ein haelodau staff;
- Diogelu ein data a'n gwybodaeth;
- Sicrhau rhaglen ragweithiol o waith tystiolaeth sydd â digon o adnoddau;
- Parhau i adolygu ac ychwanegu at ein tystiolaeth er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer yr heriau yr ydym yn eu hwynebu; a
- Rhannu ein tystiolaeth mewn modd agored a thryloyw.

Teitl: **SoNaRR2020 cofrestru coetiroedd pwysau a chyfleoedd allweddol**

Adolygiadau gan Gymheiriaid: Adolygiad gan gymheiriaid mewnol ac allanol

Cyfyngiadau: Dim

# Cynnwys yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

Mae’r ddogfen hon yn un o grŵp o gynhyrchion sy'n ffurfio'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020). Dyma'r gyfres lawn o gynhyrchion:

**Crynodeb Gweithredol.** Rhagair, Cyflwyniad, Crynodeb a Chasgliadau. Cyhoeddwyd fel cyfres o dudalennau gwe ym mis Rhagfyr 2020

**Y Cofrestrau Adnoddau Naturiol.** Ysgogwyr, Pwysau, Effeithiau a Chyfleoedd i Weithredu ar gyfer wyth Ecosystem Eang. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ac fel ffeithlun rhyngweithiol ym mis Rhagfyr 2020

**Asesiadau yn erbyn pedwar nod Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.** Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Rhagfyr 2020:

Nod 1 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

Nod 2 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae ecosystemau yn gallu gwrthsefyll newid disgwyliedig ac anrhagweledig

Nod 3 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae gan Gymru leoedd iach i bobl sydd wedi'u gwarchod rhag peryglon amgylcheddol

Nod 4 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Cyfrannu at economi adfywiol, cyflawni lefelau cynhyrchu a defnydd cynaliadwy

**Asesiad o Fioamrywiaeth Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020.** Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

**Asesiadau yn ôl Ecosystem Eang.** Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ymylon Arfordirol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ffermdir Caeedig

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Dŵr Croyw

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Yr Ardal Forol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Mynyddoedd, Gweundiroedd a Rhosydd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Coetiroedd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Trefol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Glaswelltir Lled-naturiol

**Asesiadau yn ôl Thema Drawsbynciol**. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ansawdd Aer

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Y Newid yn yr Hinsawdd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Ynni

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Priddoedd a Defnydd Tir

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Gwastraff

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Dŵr

**Anghenion tystiolaeth diweddaredig yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.** Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

**Acronymau a Rhestr Termau.** Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020 a diweddarwyd ym mis Mawrth 2021

**Dyfyniad argymelledig ar gyfer y rhan hon o'r adroddiad:**

Cyfoeth Naturiol Cymru. 2020. SoNaRR2020 cofrestru coetiroedd pwysau a chyfleoedd allweddol. Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Hawlfreintiau**

Oni nodir yn wahanol, gall cynnwys yr adroddiad hwn gael ei ddefnyddio dan drwydded Llywodraeth Agored

Oni nodir yn wahanol, mae'r holl graffiau, mapiau, tablau a delweddau eraill yn © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys ffin Cymru:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl. © Hawlfraint y Goron a chronfa ddata 2020. Rhif trwydded 100019741 yr Arolwg Ordnans.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys agweddau morol:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl © y Goron Brydeinig ac OceanWise Ltd, 2020. Cedwir pob hawl. Rhif trwydded EK001-20120402. Ni ddylid eu defnyddio at ddibenion mordwyaeth.

# Coetiroedd
# Cofrestr Adnoddau Naturiol

## Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020

Mae'r Cofrestrau Adnoddau Naturiol yn allbwn pwysig Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Eu pwrpas yw distyllu'r pwysau a chyfleoedd allweddol a nodwyd yn y penodau a darparu asesiad hygyrch o'r rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol.

Mae Cofrestr Adnoddau Naturiol Coetiroedd yn cynnwys dwy ddogfen ychwanegol:

1. SoNarR2020 Cofrestru coetiroedd asesu SMNR
2. SoNaRR2020 Register woodlands evidence

Tabl 1 Prif sbardunau, pwysau ac effeithiau ar ecosystem y coetiroedd

| Sbardun | Pwysau | Effaith |
|---|---|---|
| **Y newid yn yr hinsawdd** | 1. Newid ym mhatrymau'r tywydd | 1.1. Mwy o risg gan blâu a chlefydau.<br>Asesiad hyder: CANOLIG<br>Nod 1, 2, 3 a 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy<br><br>1.2. Newidiadau yn addasrwydd rhywogaethau coed ar sail twf coed a chynhyrchiant coetiroedd.<br>Asesiad hyder: CANOLIG<br>Nod 1, 2, 3 a 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy<br><br>1.3. Newidiadau yn amrediad, dosbarthiad, cyfansoddiad, cyflwr a hyd yn oed goroesiad mathau o goetir brodorol.<br>Asesiad hyder: CANOLIG<br>Nod 1 a 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy<br><br>1.4. Effeithiau ar fflora a ffawna coetiroedd.<br>Asesiad hyder: CANOLIG<br>Nod 1 a 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy<br><br>1.5. Newidiadau mewn cyfraddau dal a storio carbon.<br>Asesiad hyder: CANOLIG |

| | | |
|---|---|---|
| | | Nod 3 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy<br><br>1.6. Mwy o risg o ddigwyddiadau o dywydd eithafol o a thanau gwyllt.<br>Asesiad hyder: CANOLIG<br>Nod 1, 2, 3 a 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy<br><br>1.7. Newidiadau mewn argaeledd ac addasrwydd tir.<br>Asesiad hyder: CANOLIG<br>Nod 1, 2, 3 a 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |
| **Llygredd** | 2. Llygredd aer | 2.1 Gallai gorfaethu, yn enwedig â nitrogen, achosi newidiadau i gyfansoddiad fflora coetiroedd.<br>Asesiad hyder: UCHEL<br>Nod 1, 2, a 3 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |
| **Newid yn nefnydd tir** | 3. Datblygiad a seilwaith adeiledig | 3.1 Gostyngiad mewn ehangder.<br>Asesiad hyder: ISEL<br>Nod 1, 2, 3 a 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy<br><br>3.2 Darnio cynefinoedd.<br>Asesiad hyder: ISEL<br>Nod 1 a 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |
| **Newid yn nefnydd tir** | 4. Cystadleuaeth yn nefnydd tir | 4.1 Gostyngiad mewn ehangder<br>Asesiad hyder: ISEL<br>Nod 1, 2, 3 a 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy<br><br>4.2 Darnio cynefinoedd<br>Asesiad hyder: ISEL<br>Nod 1 a 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy<br><br>4.3 Llai o gyfle i ehangu'r ecosystem<br>Asesiad hyder: CANOLIG<br>Nod 1, 2, 3 a 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |

| | | |
|---|---|---|
| **Newid yn nefnydd tir** | 5. Rheolaeth annigonol | 5.1 Dirywiad yng nghyflwr coetiroedd<br>Asesiad hyder: UCHEL<br>Nod 1, 2, 3 a 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy<br><br>5.2 Effeithiau ar fflora a ffawna coetiroedd.<br>Asesiad hyder: UCHEL<br>Nod 1 a 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |
| **Rhywogaethau estron goresgynnol, plâu a chlefydau** | 6. Plâu a chlefydau | 6.1 Dirywiad mewn iechyd coed<br>Asesiad hyder: UCHEL<br>Nod 1, 2, 3 a 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |
| | 7. Pwysau ar lysysyddion | 7.1 Dirywiad mewn iechyd coed<br>Asesiad hyder: UCHEL<br>Nod 1, 2, 3 a 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |

# Cyfleoedd ar gyfer gweithredu

**Penawdau**

- Mae angen gweithredu i wella gwydnwch coetiroedd sydd eisoes yn bodoli i sbardunau newid, ac i sicrhau buddion ar gyfer y genhedlaeth bresennol a rhai'r dyfodol. Mae'r sbardunau hyn yn cynnwys y newid yn yr hinsawdd, plâu a chlefydau, llygredd aer, diffyg rheolaeth briodol, a newid yn nefnydd tir.
- Mae pren, fel adnodd cynaliadwy a naturiol, yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i economi Cymru, ac mae potensial iddo wneud mwy o gyfraniad.
- Mae gan goed a choetiroedd ran hanfodol bwysig i'w chwarae wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur sydd wedi'u datgan yng Nghymru.

## Nod 1: Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

Rydym wedi nodi pedwar maes rhyng-gysylltiedig i ganolbwyntio arnynt wrth weithredu (h.y. ar draws pob un o'r pedwar nod):

- Dod â mwy o goetiroedd o dan reolaeth a gynllunnir
- Gwella ac addasu'r gwaith o reoli coetir a reolir sydd eisoes yn bodoli
- Plannu cydadferol i wneud yn iawn am goetir a gollir yn barhaol mewn perthynas â darpariaeth ynni adnewyddadwy a datblygiad cymeradwy
- Cynyddu faint o goetir newydd a grëir

Bydd y rhain yn helpu i wneud y canlynol:

- diogelu a gwella stociau o adnoddau naturiol

- gwella gwydnwch, gan gynnwys i blâu, clefydau a newid yn yr hinsawdd y dyfodol, ynghyd â chynnal bioamrywiaeth coetiroedd, a'i gwella
- sicrhau y caiff y buddion a ddarperir gan goetiroedd eu cynnal a'u gwella, a'u bod yn gwneud mwy o gyfraniad i lesiant drwy hybu economi gylchol a'r defnydd o adnoddau mewn modd effeithlon, a darparu lleoedd iach i bobl sydd wedi'u gwarchod rhag risgiau amgylcheddol

[**Cyfnewidiadau a synergeddau**] Ceir llawer o gyfnewidiadau a synergeddau sy'n gysylltiedig â rheoli coetiroedd a chreu coetiroedd newydd ac y maent yn gweithredu ar raddfeydd amserol a gofodol amrywiol (Quine ac eraill, 2018; Emmett ac eraill, 2020). Mewn perthynas â Nod 1 (a 2), os caiff coetiroedd sydd eisoes yn bodoli eu gwarchod a'u gwella, ac y caiff mwy o goetiroedd eu creu, caiff mwy o wasanaethau ecosystemau darparu, rheoleiddiol a diwylliannol (sy'n gysylltiedig â Nodau 3 a 4) [**synergedd**]. Fodd bynnag, bydd creu mwy o goetiroedd yn golygu y bydd llai o dir ar gael ar gyfer defnyddiau tir eraill, fel amaethyddiaeth, darparu ynni gwynt neu solar, neu ehangu cynefinoedd eraill [**cyfnewidiad**].

**Gallai camau gweithredu penodol ar gyfer Nod 1 gynnwys y canlynol:**

- Casglu tystiolaeth i ddeall a meintioli'r cyfnewidiadau a synergeddau ar gyfer yr ecosystem o safbwynt newid defnydd tir er mwyn hybu'r gwaith o greu coetiroedd newydd;
- Mabwysiadu fframwaith polisi a deddfwriaethol i sicrhau bod plannu cydadferol yn orfodol er mwyn gwneud yn iawn am unrhyw goetir a gollir yn barhaol mewn perthynas â darpariaeth ynni adnewyddadwy a datblygiad cymeradwy, fel a wneir ar gyfer tir comin o dan Adran 16 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006;
- Gwella cyflwr coetiroedd, er enghraifft drwy waith rheoli, er mwyn cyflawni lefelau priodol o bori;
- Cynyddu bioamrywiaeth, er enghraifft drwy gynllunio a rheoli coetiroedd yn well;
- Gwella amrywiaeth rywogaethol a strwythurol (yn enwedig mewn planhigfeydd coed), i hybu addasiad i blâu, clefydau a'r newid yn yr hinsawdd;
- Annog gwaith adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol;
- Sicrhau bod y pecyn cywir o gymhellion a mecanweithiau ar waith wrth symud ymlaen er mwyn hybu gwaith creu a rheoli coetiroedd;
- Datblygu fframwaith gwneud penderfyniadau ar gyfer defnydd tir (Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad yr RSA, 2019 a 2020) (Foresight Land Use Futures Project, 2010).

# Nod 2: Ecosystemau gwydn

Rydym wedi nodi pedwar maes rhyng-gysylltiedig i ganolbwyntio arnynt wrth weithredu (h.y. ar draws pob un o'r pedwar nod):

- Dod â mwy o goetiroedd o dan reolaeth a gynllunnir
- Gwella ac addasu'r gwaith o reoli coetir a reolir sydd eisoes yn bodoli
- Plannu cydadferol i wneud yn iawn am golli coetir yn barhaol mewn perthynas â darpariaeth ynni adnewyddadwy a datblygiad cymeradwy
- Cynyddu faint o goetir newydd a grëir

Bydd y rhain yn helpu i wneud y canlynol:

- diogelu a gwella stociau o adnoddau naturiol

- gwella gwydnwch, gan gynnwys i blâu, clefydau a newid yn yr hinsawdd y dyfodol, ynghyd â chynnal bioamrywiaeth coetiroedd, a'i gwella
- sicrhau y caiff y buddion a ddarperir gan goetiroedd eu cynnal a'u gwella, a'u bod yn gwneud mwy o gyfraniad i lesiant drwy hybu economi gylchol a’r defnydd o adnoddau mewn modd effeithlon, a darparu lleoedd iach i bobl sydd wedi'u gwarchod rhag risgiau amgylcheddol

[**Cyfnewidiadau a synergeddau**] Ceir llawer o gyfnewidiadau a synergeddau sy'n gysylltiedig â rheoli coetiroedd a chreu coetiroedd newydd ac y maent yn gweithredu ar raddfeydd amserol a gofodol amrywiol (Quine ac eraill, 2018; Emmett ac eraill, 2020). Mewn perthynas â Nod 2, bydd gwella gwydnwch ecosystemau yn diogelu a gwella stociau o adnoddau naturiol (Nod 1) a llif y gwasanaethau ecosystemau darparu, rheoleiddiol a diwylliannol (Nodau 3 a 4) [**synergedd**]. Fodd bynnag, gan fod ehangder yn un o nodweddion gwydnwch, bydd creu mwy o goetiroedd yn golygu y bydd llai o dir ar gael ar gyfer defnyddiau tir eraill, fel amaethyddiaeth, darparu ynni gwynt neu solar, neu ehangu cynefinoedd eraill [**cyfnewidiad**].

**Gallai camau gweithredu penodol ar gyfer Nod 2 gynnwys y canlynol:**

- Gwella cysylltedd er mwyn gwrthdroi darniad coedwigoedd brodorol;
- Cynyddu bioamrywiaeth, er enghraifft drwy gynllunio a rheoli coetiroedd yn well;
- Gwella amrywiaeth rywogaethol a strwythurol (yn enwedig mewn planhigfeydd coed);
- Cefnogi addasiad i blâu, clefydau a'r newid yn yr hinsawdd er mwyn gwella swyddogaeth ecolegol;
- Annog gwaith adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol;
- Hybu a datblygu rhwydweithiau o gynefinoedd coetir gweithredol fel rhan o rwydweithiau ecolegol gwydn ehangach, gan sicrhau yr eir i'r afael â'r risgiau posibl i fioddiogelwch;
- Hybu a datblygu rhwydweithiau o gynefinoedd coetir gweithredol fel rhan o rwydweithiau ecolegol gwydn ehangach, gan sicrhau yr eir i'r afael â'r risgiau posibl i fioddiogelwch;
- Hybu a datblygu rhwydweithiau o gynefinoedd coetir gweithredol fel rhan o rwydweithiau ecolegol gwydn ehangach, gan sicrhau yr eir i'r afael â'r risgiau posibl i fioddiogelwch;
- Gwella cyflwr coetiroedd dynodedig a chyflawni statws cadwraeth ffafriol;
- Casglu tystiolaeth i ddeall a meintioli'r cyfnewidiadau a synergeddau ar gyfer yr ecosystem o safbwynt newid defnydd tir er mwyn hybu'r gwaith o greu coetiroedd newydd.

## Nod 3: Lleoedd iach i bobl

Rydym wedi nodi pedwar maes rhyng-gysylltiedig i ganolbwyntio arnynt wrth weithredu (h.y. ar draws pob un o'r pedwar nod):

- Dod â mwy o goetiroedd o dan reolaeth a gynllunnir
- Gwella ac addasu'r gwaith o reoli coetir a reolir sydd eisoes yn bodoli
- Plannu cydadferol i wneud yn iawn am golli coetir yn barhaol mewn perthynas â darpariaeth ynni adnewyddadwy a datblygiad cymeradwy
- Cynyddu faint o goetir newydd a grëir

Bydd y rhain yn helpu i wneud y canlynol:

- diogelu a gwella stociau o adnoddau naturiol
- gwella gwydnwch, gan gynnwys i blâu, clefydau a newid yn yr hinsawdd y dyfodol, ynghyd â chynnal bioamrywiaeth coetiroedd, a'i gwella
- sicrhau y caiff y buddion a ddarperir gan goetiroedd eu cynnal a'u gwella, a'u bod yn gwneud mwy o gyfraniad i lesiant drwy hybu economi gylchol a'r defnydd o adnoddau mewn modd effeithlon, a darparu lleoedd iach i bobl sydd wedi'u gwarchod rhag risgiau amgylcheddol

[**Cyfnewidiadau a synergeddau**] Ceir llawer o gyfnewidiadau a synergeddau sy'n gysylltiedig â rheoli coetiroedd a chreu coetiroedd newydd ac y maent yn gweithredu ar raddfeydd amserol a gofodol amrywiol (Quine ac eraill, 2018; Emmett ac eraill, 2020). Mewn perthynas â Nod 3, mae'r llif o wasanaethau ecosystemau rheoleiddiol a diwylliannol a ddarperir gan goetiroedd yn ffwythiant cynnydd a wneir yn erbyn Nodau 1 a 2. Ceir synergeddau a chyfnewidiadau sy'n gysylltiedig â Nod 3. Er enghraifft, gall adfer coetir torlannol, er mwyn helpu i reoli llifogydd, wella'r dirwedd a'r cyfleoedd hamdden [**synergedd**], ond efallai mai cnydau newydd, nad yw rhanddeiliaid yn gyfarwydd â nhw neu nad ydynt yn eu hoffi, ac sydd felly'n achosi dirywiad i'w llesiant meddyliol, sy'n cynnig yr opsiwn mwyaf effeithiol o ddal a storio carbon [**cyfnewidiad**].

**Gallai camau gweithredu penodol ar gyfer Nod 3 gynnwys y canlynol:**

- Creu rhwydweithiau o gynefinoedd coetir a pharthau 'lle i goed' o gwmpas trefi a dinasoedd, a gyflwynir drwy Gynlluniau Datblygu Unedol a Datganiadau Ardal;
- Rhannu buddion amlbwrpas coetiroedd;
- Hyrwyddo coetiroedd fel ateb sy'n seiliedig ar natur ar gyfer lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, lliniaru risgiau llifogydd a sychder, a llygredd aer;
- Cefnogi'r gwaith o nodi lleoedd cyfle sy'n seiliedig ar le ar gyfer creu coetiroedd, gan weithio'n agos gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, tirfeddianwyr lleol a chymunedau;
- Casglu tystiolaeth i ddeall a meintioli'r cyfnewidiadau a synergeddau ar gyfer yr ecosystem o safbwynt newid defnydd tir er mwyn hybu'r gwaith o greu coetiroedd newydd.

## Nod 4: Economi adfywiol

Rydym wedi nodi pedwar maes rhyng-gysylltiedig i ganolbwyntio arnynt wrth weithredu (h.y. ar draws pob un o'r pedwar nod):

- Dod â mwy o goetiroedd o dan reolaeth a gynllunnir
- Gwella ac addasu'r gwaith o reoli coetir a reolir sydd eisoes yn bodoli
- Plannu cydadferol i wneud yn iawn am golli coetir yn barhaol mewn perthynas â darpariaeth ynni adnewyddadwy a datblygiad cymeradwy
- Cynyddu faint o goetir newydd a grëir

Bydd y rhain yn helpu i wneud y canlynol:

- diogelu a gwella stociau o adnoddau naturiol;
- gwella gwydnwch, gan gynnwys i blâu, clefydau a newid yn yr hinsawdd y dyfodol, ynghyd â chynnal bioamrywiaeth coetiroedd, a'i gwella; a
- sicrhau y caiff y buddion a ddarperir gan goetiroedd eu cynnal a'u gwella, a'u bod yn gwneud mwy o gyfraniad i lesiant drwy hybu economi gylchol a'r defnydd o adnoddau

mewn modd effeithlon, a darparu lleoedd iach i bobl sydd wedi'u gwarchod rhag risgiau amgylcheddol.

[**Cyfnewidiadau a synergeddau**] Ceir llawer o gyfnewidiadau a synergeddau sy'n gysylltiedig â rheoli coetiroedd a chreu coetiroedd newydd ac y maent yn gweithredu ar raddfeydd amserol a gofodol amrywiol (Quine ac eraill, 2018; Emmett ac eraill, 2020). Mewn perthynas â Nod 4, mae'r llif o wasanaethau ecosystemau darparu gan goetiroedd yn ffwythiant cynnydd a wneir yn erbyn Nodau 1 a 2. Ceir synergeddau a chyfnewidiadau sy'n gysylltiedig â Nod 4. Mae'r **cyfnewidiad** rhwng gwasanaethau darparu a rheoleiddiol yn gymhleth, ac weithiau'n gynhennus (mewn perthynas â biomas a phwysigrwydd cnydau bio-ynni gwahanol o safbwynt senarios dal a storio carbon). Ystyrir hefyd mai pren meddal yw conglfaen y diwydiant pren yng Nghymru a'r DU (ac mae'n gyfrifol am y rhan fwyaf o fewnforion). Mae potensial i bren gyfrannu mwy i economi adfywiol a lleihau'r costau carbon sy'n gysylltiedig â mewnforio pren o bob rhan o'r byd, ond mae'n rhaid i goetiroedd conwydd cynhyrchiol fod yn rhan o'r cymysgedd o goetiroedd newydd a grëir yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r coetiroedd newydd a grëir ar hyn o bryd yn rhai llydanddail. Efallai y bydd plannu coetiroedd conwydd newydd yn lle rhai llydanddail yn gofyn am ychydig o **gyfnewidiadau** o safbwynt y dirwedd a lefelau posibl bioamrywiaeth.

**Gallai camau gweithredu penodol ar gyfer Nod 4 gynnwys y canlynol:**

- Sicrhau bod coetiroedd conwydd cynhyrchiol yn rhan o'r cymysgedd o goetiroedd newydd a grëir yng Nghymru;
- Sicrhau bod coetiroedd conwydd cynhyrchiol yn rhan o'r cymysgedd o goetiroedd newydd a grëir yng Nghymru;
- Nodi 'parthau menter coetir' cymhellol sy'n canolbwyntio ar blannu coetiroedd conwydd cynhyrchiol;
- Nodi 'parthau menter coetir' cymhellol sy'n canolbwyntio ar blannu coetiroedd conwydd cynhyrchiol;
- Datblygu a gwella gallu'r gadwyn gyflenwi, er enghraifft darparu ar gyfer rhywogaethau anarferol neu dechnolegau newydd;
- Datblygu a gwella gallu'r gadwyn gyflenwi, er enghraifft darparu ar gyfer rhywogaethau anarferol neu dechnolegau newydd;
- Cynyddu cyfleoedd yn y farchnad ar gyfer pren caled;
- Cynyddu cyfleoedd yn y farchnad ar gyfer pren caled;
- Hyrwyddo mwy o ddefnydd o bren mewn cymwysiadau adeiladwaith;
- Ystyried p'un a ellir tyfu mwy o goed sydd wedi'u hanelu'n benodol at gynhyrchu biomas;
- Gwella hyder yn y gadwyn cyflenwi pren yn ei chyfanrwydd er mwyn hybu ac annog buddsoddiad mewn datblygu ffyrdd o ychwanegu gwerth at yr adnodd sydd eisoes yn bodoli;
- Casglu tystiolaeth i ddeall a meintioli'r cyfnewidiadau a synergeddau ar gyfer yr ecosystem o safbwynt newid defnydd tir er mwyn hybu'r gwaith o greu coetiroedd newydd.